

Edwina Hart MBE CStJ AC / AM  
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth  
Minister for Economy, Science and Transport



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-315  
Ein cyf/Our ref EH/03465/14

William Powell AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau  
stephen.george@cymru.gov.uk

22 Medi 2014

Annwyl William

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 1 Medi ynghylch deiseb P-04-315 sy'n cynnig adeiladu croesfan newydd dros yr Afon Dyfi.

Fel y byddwch yn ymwybodol, cwrddais cynrychiolwyr busnes a'r gymuned ym mis Tachwedd 2013 i drafod gwneud gwelliannau i Bont Dyfi. Ar ôl ystyried y sylwadau a gawsom, nid yw ein cynlluniau'n cynnwys adeiladu ffordd osgoi heibio Machynlleth. Wedi dweud hynny, ni fyddai lleoliad y cynllun newydd arfaethedig yn atal ffordd osgoi rhag cael ei hadeiladu yn y dyfodol.

Bellach, mae asiant y cyflogwr wedi cael ei benodi i reoli'r cynllun gwella ac rydym yn symud ymlaen â'r gwaith o gaffael contractwr dylunio ac adeiladu. Unwaith y penodir y contractwr, bydd yn mynd ati i ddatblygu opsiynau ar gyfer croesfan newydd i fyny'r afon oddi wrth y bont gyfredol.